D E U P A R T H   F F O R D D   E I   G W Y B O D

YSGOL GARTH OLWG

# PROSBECTWS

MEITHRIN PARCH
ANNOG UCHELGAIS
CYDWEITHIO FEL UN GYMUNED

gartholwg.cymru

# Croeso gan y Prifathro

Pleser yw cael eich croesawu i Ysgol Garth Olwg drwy law y prosbectws hwn. Mawr obeithiaf y cewch fwynhad o bori drwy'r prosbectws lle cewch flas ar yr holl gyfleoedd, cefnogaeth a gweithgareddau sydd ar gael i'r disgyblion, yn ogystal â gwybodaeth am strwythur a gweledigaeth yr ysgol.

Ymhyfrydwn yn ein Cymreictod, a'n hetifeddiaeth gref ac arloesol, ac rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i sicrhau bod Ysgol 3 – 19 Garth Olwg yn darparu'r addysg orau bosib i'n dysgwyr.

Mae ethos yr ysgol wedi ei seilio ar y gwerthoedd canlynol:

**Meithrin Parch**
**Annog Uchelgais**
**Cydweithio fel Un Gymuned**

Drwy ganolbwyntio ar y gwerthoedd yma rydym yn sicr y bydd ein disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni eu potensial gyda gwên.

Edrychaf ymlaen yn fawr i'ch croesawu i'r ysgol yn y dyfodol agos.



**Mr T. EDWARDS** Prifathro

# Cenhadaeth Ysgol Garth Olwg

Darparu Addysg Gymraeg 3 – 19 oed o'r safon uchaf i ddysgwyr ardal Pontypridd, yn ogystal â chwarae rhan flaenllaw i ffurfio partneriaeth gref gyda'r Ysgolion Cynradd Cymraeg lleol. Drwy wneud hyn bydd y sector Addysg Gymraeg yn parhau i ffynnu yn yr ardal hon yn yr unfed ganrif ar hugain.

Meithrin dysgwyr iach, annibynnol ac amlieithog sy'n ymhyfrydu yn eu hysgol. Mae disgybilon 3 – 19 Garth Olwg yn dangos parch at holl randdeiliaid yr ysgol, yn unigolion uchelgeisiol sy'n gosod safonau uchel i'w hunain yn barhaus. Mae Ysgol Garth Olwg yn ysgol gynhwysol sy'n paratoi pob dysgwr ar gyfer heriau'r dyfodol drwy ddarparu ysgol hapus iddynt ddatblygu eu medrau i'r eithaf. Mae yma ymdeimlad gref o gydweithio fel un gymuned ac o ganlyniad mae Disgyblion, Staff, Rhieni a Gofalwyr, Llywodraethwyr a holl randdeiliaid yr ysgol yn aelodau balch o Gymuned Ysgol Garth Olwg.

Darparu cwricwlwm cydlynus a chontinwwm o brofiadau dysgu sy'n pontio'r cyfnodau oedran ar draws yr ystod 3 – 19. Yn greiddiol i'r weledigaeth hon yw'r Ysgol Ganol (Bl 5 – 8) sy'n rhoi ffocws clir i ddatblygu'r continwwm dysgu ar draws yr ystod oedran allweddol hon.

Sefydlu ysgol gyffrous a deinamig sy'n medru addasu'n gyflym i heriau addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hon yn ysgol sy'n datblygu strategaethau ac addysgeg ar sail ymchwil, yn ysgol sydd yn barod i fentro ac arbrofi wrth dorri tir newydd fel Ysgol 3 – 19. Bydd Ysgol Garth Olwg yn chwarae rhan flaenllaw yn y datblygiadau addysg yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn sicrhau bod Ysgol Garth Olwg yn adnabyddus fel ysgol 3-19 arloesol a llwyddiannus.

# Gweledigaeth Ysgol Garth Olwg

Sefydlu gwir Ysgol 3 – 19 sy'n darparu continwwm o brofiadau dysgu ar draws yr ystod oedran

Meithrin Unigolion iach, parchus ac hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Meithrin Dinasyddion Cymreig egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, yn falch o'u hetifeddiaeth ac yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus

Meithrin Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

Meithrin Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith

Aelod balch o Bartneriaeth Addysg Pontypridd er mwyn sicrhau bod Addysg Gymraeg yn parhau i ffynnu

# Strwythur Tîm Arwain

## TÎM STRATEGOL



**Mr T. Edwards**
Prifathro



**Dr S. Williams**
Dirprwy Brifathro



**Mrs E. Howard**
Dirprwy Brifathro



**Ms E. Mair**
Prifathro Cynorthwyol



**Dr N. Griffiths**
Prifathro Cynorthwyol

## PENAETHIAID YSGOL



**Mrs A. Rogers**
Pennaeth yr Ysgol Isaf



**Mrs R. Llwyd**
Pennaeth yr Ysgol Ganol



**Mrs K. Adsett**
Pennaeth yr Ysgol Uchaf



**Mr Ll. Evans**
Pennaeth yr Ysgol Hŷn

## TÎM CWRICWLWM



**Mr G. Morris**
Pennaeth Cysylltiol Gwyddoleg a Gwyddor Chwaraeon



**Mr G. Parry**
Pennaeth Cysylltiol Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



**Mr T. Lancaster**
Pennaeth Cysylltiol Mathemateg, Rhifedd a TGCh



**Mrs V. Andrews**
Pennaeth Cysylltiol ADY

# Cymorth Dysgu

Gweler isod ddolen am darpariaeth ADY yr ysgol:

**https://sites.google.com/hwbcymru.net/ady-garth-olwg/cartrefhome**

# Tîm Ysgolion

YSGOL GARTH OLWG ISAF

Meithrin - Bl 4



**Mrs A. Rogers**
Pennaeth Ysgol



**Mrs G. Spanswick**
Dirprwy Bennaeth

**Isaf: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgolisafgartholwg**

YSGOL GARTH OLWG GANOL

Bl 5 - Bl 8



**Mrs R. Llwyd**
Pennaeth Ysgol



**Miss J. Rees**
Dirprwy Bennaeth

**Canol: https://sites.google.com/hwbcymru.net/gartholwgcanol**

YSGOL GARTH OLWG UCHAF

Bl 9 - Bl 11



**Mrs K. Adsett**
Pennaeth Ysgol



**Miss E. Jones**
Dirprwy Bennaeth

**Uchaf: https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-uchaf**

YSGOL GARTH OLWG HŶN

Bl 12 - Bl 13



**Mr Ll. Evans**
Pennaeth Ysgol

**Hŷn https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-hyn-garth-olwg**

# Lles a Gofal

## EIN STAFF LLES

Mae gennym dîm arbennig o staff lles sydd ar gael trwy'r dydd a phob dydd er mwyn cefnogi a chynnal ein holl ddisgyblion.

| | |
|---|---|
| **Pawb** | Mrs S. Ogleby |
| **Ysgol Isaf** | Mrs A. Billing |
| **Ysgol Ganol** | Miss J. Cory<br>Miss S. Evans |
| **Ysgol Uchaf** | Mrs Y. Rees-Williams |

## RHAGLENNI LLES MEWNOL AC ASIANTAETHAU ALLANOL

Yn fewnol rydym yn cynnal rhaglenni **Elsa, Talkabout a Boxall**.

www.elsa-support.co.uk
alexkelly.biz/alexs-work-and-talkabout
new.boxallprofile.org

Rydym hefyd yn cynnig cymorth trwy raglenni **DEAL** gan y Samariaid ar gyfer:

- problemau cwsg
- iselder
- rheoli tymer
- gor-bryder
- swilder
- bod o dan bwysau
- pwysau arholiadau
- adeiladu dygnwch

www.samaritans.org/wales/how-we-can-help/schools/deal

Yn ogystal, rydym yn cydweithio gyda'r asiantaethau isod yr isod yn allanol:

**EyetoEye** www.eyetoeye.wales/schools-counselling

**YEPS** (Gwasanaeth ieuecnctid Rhondda Cyon Taf)
www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ChildrenandFamilies/YouthClubsandActivities/YouthServiceYEPS.aspx

**VIBE** vibeyouth.co.uk

**Nyrs ysgol** a sesiynau 'taro mewn' iechyd rhyw

# Cynnydd a Lles

Yma yn Ysgol Garth Olwg  credwn yn gryf bod plant hapus yn gwneud dysgwyr llwyddiannus a nod ein cymuned ofalgar yw sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus i bawb. Fel rhan o **gydweithio fel un gymuned** rydym yn ymrwymedig i ddatblygu perthynas gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn sicrhau'r profiad ysgol orau posib i bob plentyn.

Yn Ysgol Garth Olwg mae gennym strwythur lles llwyddiannus iawn sydd yn darparu gofal arbennig i'n disgyblion. Mae gennym dîm o Benaethiaid Ysgol a Dirprwyon Ysgol bydd yn monitro cynnydd a lles eich plentyn yn ofalus. Yn ogystal, mae'r Anogwyr Dysgu a Swyddogion Lles ar gael i ddarparu cymorth lles a gofal gorau posibl i'ch plentyn. Mae'r tîm profiadol ar gael i gefnogi disgyblion ar draws ystod pob oedran er mwyn datblygu unigolion iach a hyderus sydd yn **annog uchelgais** ynddyn nhw hunain.

Mae gennym ardaloedd dynodedig ar gyfer cynnal a chefnogi lles ein disgyblion yn effeithiol gan gynnwys ardaloedd penodol pan fod angen amser i ymdawelu a myfyrio. Cynhelir clybiau cymdeithasol a grwpiau lles yn wythnosol er mwyn cefnogi a hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol ein dysgwyr a **hybu bywyd iach**.

Fel rhan o'n ethos o **feithrin parch**, rydym yn gweithredu system clod a chamau ar Class Charts. Rydym yn rhoi'r pwyslais ar ganmol a dathlu llwyddiant am ei fod yn sylfaen ar gyfer annog disgyblion tuag at ymddygiad cardarnhaol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y pwyntiau trwy eich ap Class Charts.

# Swyddogion Diogelu Plant

Dyma ein tîm sydd yn cydweithio i gadw disgyblion yn yr ysgol yn ddiogel.



**Mr T. Edwards**
Prifathro



**Mrs S. Ogleby**
Uwch Swyddog Diogelu



**Mrs E. Howard**
Dirprwy Brifathro



**Mrs A. Rogers**
Swyddog Diogelu Ysgol Isaf



**Mrs R. Llwyd**
Swyddog Diogelu Ysgol Ganol



**Mrs K. Adsett**
Swyddog Diogelu Ysgol Uchaf



**Mr Ll. Evans**
Swyddog Diogelu Ysgol Isaf Ysgol Hŷn

# Amseroedd Y Dydd

| Meithrin | Derbyn | Bl.1&2 | Bl. 3&4 | Bl. 5&6 | Bl. 7&8 | Uwch & Hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 **08:50** | 1 **08:50** | 1 **08:50** | 1 **08:50** | Cofr. 08:45 | 1 **08:30** | 1 **08:30** |
| Egwyl 10:30 | Egwyl 10:30 | Egwyl 10:30 | Egwyl 10:50 | 1 **09:00** | Cofr. 09:30 | Cofr. 09:30 |
| 2 **10:50** | 2 **10:50** | 2 **10:50** | 2 **11:10** | Egwyl 10:00 | 2 **09:50** | 2 **09:50** |
| Cinio 11:30 | Cinio 11:45 | Cinio 12:00 | Cinio 12:40 | 2 **10:20** | Egwyl 10:50 | Egwyl 10:50 |
| 3 **13:00** | 3 **13:00** | 3 **13:00** | 3 **13:40** | Cinio 12:00 | 3 **11:10** | 3 **11:10** |
| | | | | 3 **13:00** | 4 **12:10** | 4 **12:10** |
| | | | | | Cinio 13:10 | Cinio 13:10 |
| | | | | | 5 **13:55** | 5 **13:55** |
| Adref 15:20 | Adref 15:20 | Adref 15:20 | Adref 15:20 | Adref 15:20 | Adref 15:00 | Adref 15:00 |

# Clwb Brecwast a Clwb Carco

**Clwb Brecwast:** 8:10-8.40am (manylion ar gael o'r ysgol)

**Clwb Carco:** 3.20-5.20pm (Cysylltwch gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf)

# Cyfathrebu

Cofiwch y gallwch gael mynediad i wybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad a chynnydd eich plentyn, yn ogystal â negeseuon pwysig drwy ClassCharts, ar yr app neu ar-lein.

# Presenoldeb & Meddyginiaeth

## PRESENOLDEB

Mewn achos o absenoldeb, gofynnwn i rieni gadael neges sydd yn cynnwys enw llawn / blwyddyn ysgol / rheswm dros yr absenoldeb / hyd yr absenoldeb neu galwch gysylltu yn ddyddiol.

Gallwch wneud hyn trwy ffonio'r  llinell presenoldeb ar **01443 570050** neu e-bostio **presenoldeb.attendance@gartholwg.cymru**

Os ydy'r absenoldeb o ganlyniad i resymau lles, gofynnwn i chi hefyd cysylltu â'r Pennaeth Ysgol berthnasol i drafod. Byddwn yn cysylltu am absenoldebau trwy neges destun ac ar e-bost. Byddwch yn gallu monitro presenoldeb eich plentyn ar Class Charts.

Gofynnwn i chi drefnu apwyntiadau meddygol / deintydd / optegydd rheolaidd y tu hwnt i oriau ysgol. Os oes apwyntiad yn ystod y diwrnod ysgol gennych, rydym yn gofyn i dderbyn copi o'r llythyr er mwyn gallu nodi'r apwyntiad ar y gofrestr o flaen llaw.

## MEDDYGINIAETH PRESGRIPSIWN

**Tymor byr** Yn gyffredinol, gofynnwn i rieni/warcheidwad rhoi meddyginiaeth y tu fas i oriau ysgol. Pan nad yw hyn yn bosib mae angen sicrhau bod y feddyginiaeth yn dod atom yn y botel wreiddiol, gyda'r cyfarwyddiadau gwreiddiol wedi'u labeli'n glir gynnwys gwybodaeth am unrhyw sgil effeithiau posib. Bydd angen bod eich plentyn wedi derbyn o leiaf un dos o'r meddyginiaeth cyn derbyn meddyginiaeth yn yr ysgol.

**Ysgol Isaf** Gofynnwn i  riant/ warcheidwad  llenwi taflen yn y swyddfa ac mae'r moddion yn cael ei gadw yn yr oergell yn yr Ystafell Cymorth Cyntaf. Rhoddir y moddion amser cinio a chedwir cofnod o'r manylion (amser, dos ayyb)

**Ysgol Ganol ac Uchaf** Gofynnwn i  riant/ warcheidwad danfon llythyr yn nodi beth sydd angen cymryd a phryd. Cedwir moddion blynyddoedd 5 a 6 gan eu hathrawon a moddion blynyddoedd 7-11 yn swyddfa'r ysgol berthnasol.

**Tymor hir** Os oes angen meddyginiaeth hir dymor ar eich plentyn, gofynnwn i chi gysylltu gyda phennaeth yr ysgol berthnasol i drafod a threfnu.

# Gwisg Ysgol

YSGOL GARTH OLWG
ISAF



YSGOL GARTH OLWG
GANOL



YSGOL GARTH OLWG
UCHAF



YSGOL GARTH OLWG
HŶN



# Gwisg Ysgol

YSGOL GARTH OLWG ISAF



YSGOL GARTH OLWG GANOL



YSGOL GARTH OLWG UCHAF



YSGOL GARTH OLWG HŶN



# Gwisg Ysgol

## ADDYSG GORFFOROL
## **YSGOL ISAF A CHANOL (BL 5 A 6)**

Pob eitem lliw glas tywyll yn blaen neu wedi'i frandio




Crys-T Plaen




Siorts Plaen

Mae hyblygrwydd i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i wisgo gwisg yr Ysgol Ganol ac Uchaf

YSGOL GARTH OLWG ISAF

YSGOL GARTH OLWG GANOL




Trowsus Loncian Plaen neu 'Leggings'

## Dewisol




Hwdi

# Gwisg Ysgol

## ADDYSG GORFFOROL
## YSGOL GANOL A'R YSGOL UCHAF

Pob eitem lliw glas tywyll yn blaen neu wedi'i frandio




Crysau T




Crysau Rygbi




Siorts




Crysau Polo



Sanau




Sgortiau

YSGOL GARTH OLWG GANOL

YSGOL GARTH OLWG UCHAF



Hwdi



Top ¼ Sip



Leggings



Siaced law gwddf crwn

## Dewisol



Trowsus Loncian Plaen

# Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg

Yn sail i'r cwricwlwm ffurfiol a addysgir rydym yn anelu i ddatblygu dysgwyr sy'n uchelgeisiol a parchus sy'n aelodau cydweithredol a gwerthfawr o'r gymuned leol a byd-eang.

Bydd Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg yn meithrin arferion cadarnhaol a meddwl iach yn ein disgyblion, gan roi'r profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau bywyd iddynt fod yn ddysgwyr sydd yn:

Meithrin Parch

Annog Uchelgais

Cydweithio fel un Gymuned

Hybu Bywyd Iach

Dathlu Cymreictod a Chymru

Dysgu am yr ardal leol

YSGOL GARTH OLWG ISAF

**Ysgol Isaf:** Prif ffocws yr Ysgol Isaf yw rhoi'r sgiliau sylfaenol i'r disgyblion, gyda phwyslais ar ddatblygu'r iaith lafar yn Gymraeg, er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sgiliau darllen ac ysgrifennu. Gan ddefnyddio egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a phedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm Newydd i Gymru, mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol tu fewn a thu allan. Datblygir y sgiliau llythrennedd a rhifedd tra rhoi'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion, ond gan hefyd rhoi amrywiaeth o brofiadau iddynt allu datblygu sgiliau meddwl, cydweithio, ymchwiliol a chreadigol. Y nod yw sicrhau bod y disgyblion yn pontio i'r Ysgol Ganol yn ddysgwyr hyderus, annibynnol ac uchelgeisiol.

YSGOL GARTH OLWG GANOL

**Ysgol Ganol:** Bwriad Blynyddoedd 5 a 6 yr Ysgol Ganol ydy datblygu'r sgiliau a faethwyd yn yr Ysgol Isaf, a'u mireinio gan greu dysgwyr annibynnol a hyderus. Rydym yn gosod pwyslais ar ddatblygu medrau amrywiol y ddwy iaith a sgiliau mathemateg yn y boreau ac yn plethu'r rhain i'n gwersi pynciol gyda'r prynhawn. Mae'r pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad wrth galon ein gwaith, ac o ganlyniad mae creadigrwydd, arbenigedd, barn a chyfraniad pob disgybl yn cael rhwydd hynt i ddatblygu a ffynnu heb ffiniau.

Ym Mlwyddyn 7 ac 8 mae dysgwyr yn astudio'r pynciau isod.

**Pynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol:** Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

**Pynciau sylfaen:** Addysg Gorfforol, Celf, Cerddoriaeth, Drama, Dyniaethau, Ffrangeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth ac Iechyd, Lles a Moeseg.

# Cwricwlwm Ysgol Garth Olwg

**Ysgol Uchaf:** Ym Mlwyddyn 9 mae disgyblion yn parhau i astudio'r pynciau gorfodol ac yn dewis i astudio 4 o'r pynciau dewisol i'w hastudio'n fanylach .

> **Pynciau gorfodol (craidd):** Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
>
> **Pynciau gorfodol (sylfaenol):** Addysg Gorfforol Statudol, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth Sylfaenol ac Iechyd, Lles a Moeseg.
>
> **Pynciau dewisol:** Addysg Gorfforol Bellach, Addysg Grefyddol, Celf, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth, Drama, Ffrangeg, Hanes a Thechnoleg Gwybodaeth Bellach.

Ar ddiwedd blwyddyn 9 fe fydd disgyblion yn dewis tri phwnc opsiwn i astudio ar gyfer eu cymwysterau TGAU neu alwedigaethol Lefel 2.

Ym Mlwyddyn 10 ac 11, yn ogystal â'r pynciau craidd gorfodol bydd y disgyblion yn astudio'r tri phwnc opsiwn maent yn dewis yn ogystal â chwricwlwm cyfoethogi sgiliau.

> **Pynciau opsiwn:** Addysg Gorfforol, BTEC Arwain drwy Chwaraeon, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Astudiaethau Crefyddol, Bwyd a Maeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth, Dilyniant Personol a Lles, Drama, Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch, Dylunio a Thechnoleg: Ffasiwn a Thecstiliau, Ffotograffiaeth, Ffrangeg, Hanes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thechnoleg Ddigidol.

**Ysgol Hŷn:** Yn ogystal ag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau rydym yn disgwyl i ddisgyblion yr Ysgol Hŷn i ddechrau gan astudio o leiaf 3 cymhwyster dewisol arall. Mae yna amrywiaeth o gymwysterau lefel 3 gwahanol (Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol).

Blaenoriaeth sydd gyda ni ar gyfer ein dysgwyr Ysgol Hŷn yw eu bod yn datblygu eu sgiliau personol, datblygu eu gallu i gymryd cyfrifoldeb ac i ymarfer arweinyddiaeth.

# Dysgu ac Addysgu

Yn Ysgol Garth Olwg credwn yn gryf mai nodwedd gref ysgol lwyddiannus yw'r pwyslais a roddir ar ddysgu ac addysgu er mwyn cwrdd ag anghenion pob unigolyn. Dylai dysgu fod yn brofiad sydd yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y disgyblion gan eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, gydol oes. Trwy ddilyn ein gwerthoedd sy'n annog arferion cadarnhaol rydym yn annog disgyblion uchelgeisiol sydd yn dangos dycnwch a dyfalbarhad er mwyn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

Cyflwynir y pynciau ar y cwricwlwm gan ddefnyddio ystod eang, cyfoethog a chreadigol o ddulliau dysgu ac addysgu a fydd yn sicrhau'r cyfle gorau posib i bob disgybl gyrraedd eu llawn potensial. Mae ein staff yn ysbrydoli ac arwain ein disgyblion gan annog uchelgais a thrwy herio ac ymestyn pob unigolyn a gosod disgwyliadau uchel ohonynt. Mae'n hanfodol bod ein disgyblion yn gweld pwrpas i'r dysgu ac yn deall ei berthnasedd i'w profiadau personol yn ogystal â mwynhau eu profiadau dysgu. Trwy feithrin parch y disgyblion tuag at eu gwaith o fewn amgylchedd dysgu ysgogol, a'u hannog i fyfyrio ac adlewyrchu yn gyson gan adnabod rhagoriaethau a gwendidau, byddwn yn cynnal a chodi safonau.

Un o egwyddorion Ysgol Garth Olwg yw pwysigrwydd gweld bywyd ysgol "Trwy lygad y disgybl". Gan gwmpasu egwyddorion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, rydym yn sicrhau bod gennym ddosbarthiadau cynhwysol ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn deall bod pob dysgwr yn datblygu ar gyflymder gwahanol, a bod lles pob disgybl yn hollbwysig er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ddysgu. Addasir y dysgu ac addysgu a'r amgylchedd ddysgu ar gyfer y disgyblion, gan ddefnyddio strategaethau personoli dysgu a gwybodaeth o'r proffiliau un tudalen yn ogystal â thargedau personol y dysgwyr. Darperir ymyrraethau pwrpasol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion yr unigolyn er mwyn sicrhau bod cyfle gan bob disgybl i wneud cynnydd.

Mae gwreiddio sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol o'r ansawdd uchaf yn rhan annatod o'r dysgu, a chymerir pob cyfle i ymgorffori'r rhain yn naturiol o fewn y cynllunio gan gynnig ymyrraethau pwrpasol yn ôl y galw.

Mae gwaith cartref yn cael ei ddefnyddio i ymestyn cyfleoedd dysgu tu hwnt i'r dosbarth. Mae unrhyw waith sy'n cael ei gwblhau tu allan i oriau ysgol yn rhan bwysig o lwybr dysgu disgybl. Mae pwrpas i'r tasgau a byddant yn cael eu gosod pan mae'n addas o fewn y cynllun gwaith ac nid o reidrwydd yn rheolaidd. Dewisir tasgau sydd yn addas i'r pwrpas hybu arferion dysgu, yn cynnal diddordeb ac yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth a byddant yn cyd-redeg â'r rhaglenni dysgu. Anogir ein disgyblion i drafod y tasgau gyda'i rhieni neu ofalwyr.

Er mwyn anelu tuag at ragoriaeth rhoddir ffocws penodol ar ddatblygu addysgeg o fewn y cynllun gwella blynyddol. Credwn yn gryf yn yr angen i fuddsoddi mewn cyfleoedd pwrpasol Dysgu Proffesiynol ar Addysgeg i'n holl staff, gyda'r ffocws ar ddatblygu meddylfryd o ymchwil gweithredol a rhannu arfer dda.

Gyda'n gilydd trwy gyd-weithio fel un gymuned byddwn yn sicrhau fod disgyblion Ysgol Garth Olwg yn datblygu'r sgiliau gydol oes, gwybodaeth a dealltwriaeth y maent eu hangen er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu yrfa.

# Darpariaeth ar gyfer disgyblion MATh

Yng Ngarth Olwg, rydym yn sicrhau fod disgyblion mwy abl a thalentog yn cael pob cyfle i ddatblygu eu sgiliau ac i ffynnu.

**Adnabod a thracio:** Mae gennym systemau cadarn i adnabod disgyblion MATh ac rydym yn defnyddio microsoft TEAMS i gyfathrebu gyda'r grwpiau yma. Rhannir adnoddau ymestynnol a gwybodaeth am weithgareddau fydd o ddiddordeb i'r disgyblion er mwyn annog uchelgais.

**Cwricwlwm:** Rydym wedi dylunio cwricwlwm sy'n sicrhau fod ein disgyblion mwy abl yn cael eu herio a'u hymestyn. Mae'n disgyblion yn dewis rhai pynciau ar ddiwedd blwyddyn 8 ac o'r herwydd mae cyfle i ddechrau ar rai agweddau o gyrsiau TGAU ym mlwyddyn 9. Rydym yn cynnal llu o weithgareddau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm i bob disgybl ac mae disgybl MATh yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd yma. Rydym yn annog ein disgyblion i gymryd rhan mewn cystadlaethau o bob math.

**Gwersi:** Rydym yn aelod o NACE (National Association for Able Children in Education) ac rydym yn dilyn eu canllawiau. Lle bo modd, rydym yn creu cyfleoedd o fewn y gwersi ar gyfer datrys problemau cymhleth ac rydym yn gofyn cwestiynau cyfoethog a heriol. Crëir cyfleodd ar gyfer dysgu sy'n cael ei arwain gan y disgybl ac rydym yn annog ein disgyblion i ddarllen amrediad eang o destunau.

**Rhaglen Rhagoriaeth/Seren Sylfaen:** Eleni, rydym wedi lansio ein rhaglen arbennig ar gyfer ein disgyblion mwyaf disglair. Mae'r rhaglen wedi ei dylunio er mwyn datblygu sgiliau a rhoi'r profiadau cywir i'r disgyblion hyn. Mae cyfleoedd cyson i ehangu gorwelion, miniogi sgiliau rhyngbersonol a dysgu am bynciau tu hwnt i gwricwlwm yr ysgol. Mae cyfle i ddisgyblion blynyddoedd 8 – 11 gymryd rhan yng nghynllun Seren sylfaen sef cynllun Hwb Seren i ddisgyblion iau.

**Rhwydwaith Seren:** Bydd disgyblion blwyddyn 12 sydd wedi ennill 6 gradd A* neu fwy yn eu harholiadau TGAU yn rhan o'n cynllun Seren. Rydym wedi dylunio rhaglen sydd yn datblygu sgiliau a rhoi'r profiadau cywir i'n disgyblion mwyaf disglair, fydd yn gwneud ceisiadau i Brifysgolion grŵp Russell, Rhydychen a Chaergrawnt. Rydym yn cydweithio gyda Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru. Trwy bartneriaethau sefydledig â Yale, Harvard a MIT, mae myfyrwyr o Gymru wedi cael y cyfle i fynychu Ysgolion Haf YYGS (Yale Young Global Scholars), Ysgol Haf Harvard ac Ysgol Haf Prifysgol Chicago. Rydym yn falch iawn fod rhai o'n disgyblion wedi cael eu dewis o blith disgyblion mwyaf disglair Cymru i fynychu'r cyrsiau yma ac mae eu hadborth wedi bod yn hynod o bositif.

Mae Rhwydwaith Seren Rhondda Cynon Taf yn dewis lansio'r cynllun seren o Garth Olwg yn flynyddol. Mae hwn yn gyfle gwych i'n disgyblion gwrdd â disgyblion o ysgolion eraill sydd ag uchelgais tebyg. Maent yn cael gwrando ar siaradwyr gwadd diddorol ac ysbrydoledig. Bydd hefyd cyfle i fynychu darlithoedd gyda'r nos a mynychu Cynhadledd Seren yn Y Drenewydd a Chynhadledd Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Rydym yn cysylltu'n rheolaidd gyda Dr Matthew Williams (Cymrawd mynediad a datblygiad gyrfa Coleg yr Iesu, Rhydychen) ac yn trefnu teithiau i'r Brifysgol. Mae rhai o'n disgyblion wedi mynychu Ysgol Haf Rhydychen yn y gorffennol a byddwn yn cefnogi disgyblion i wneud cais pe dymunent.

Bydd y disgyblion yn derbyn gwybodaeth am gynlluniau addas ac am ddarlithoedd a gynhelir ym Mhrifysgol Caerdydd. Anogir y disgyblion i ddilyn cyrsiau MOOC ac i fod yn flaengar ym mywyd yr ysgol. Rydym yn cefnogi cynllun "Doctoriaid yfory" i baratoi ein darpar feddygon yn drylwyr ar gyfer ceisiadau a'u paratoi ar gyfer cyfweliadau meddygaeth.

| MEITHRIN PARCH | NURTURING RESPECT |
| --- | --- |
| ANNOG UCHELGAIS | ENCOURAGING ASPIRATION |
| CYDWEITHIO FEL UN GYMUNED | WORKING AS ONE COMMUNITY |

**Ysgol Garth Olwg**
Campws Cymunedol Garth Olwg
Y Brif Ffordd
Pentre'r Eglwys
Pontypridd
CF38 1DX

YSGOL GARTH OLWG

**Ysgol Garth Olwg**
Garth Olwg Community Campus
Main Road
Church Village
Pontypridd
CF38 1DX

PRIFATHRO | HEADTEACHER
**Mr Trystan Edwards BSc, CPCP**

**(01443) 57 00 57** **gweinyddol@gartholwg.cymru** **gartholwg.cymru**